# Edrych ar sut mae plant a phobl ifanc yn cael eu cadw'n ddiogel yn Sir Benfro

Arolygu Trefniadau Diogelu Plant ar y Cyd



Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn

HMICFRS

AGIC Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
HIW Healthcare Inspectorate Wales

Mawrth 2025

# Helo

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn gwirio ac yn arolygu gwasanaethau. Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod gwasanaethau'n gwneud y pethau iawn yn y ffyrdd iawn. Gallwn weithredu os nad ydyn nhw.

Ym mis Mawrth 2025, fe wnaethom wirio sut mae gwasanaethau yn Sir Benfro yn cadw plant yn ddiogel.

**Fe wnaethom wirio'r canlynol:**

- beth maen nhw'n ei wneud i ddelio â chamdriniaeth ac esgeulustod
- sut maen nhw'n asesu, cynllunio a gwneud penderfyniadau i gadw plant yn ddiogel
- pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn gweithio
- sut mae gwasanaethau'n gweithio gyda' i gilydd

## Pwy wnaeth gymryd rhan?

**Cawsom gymorth gan:**

- Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi a Gwasanaethau Tân ac Achub
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Estyn.

**Fe wnaethom ni arolygu:**

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Gwasanaethau awdurdodau lleol — gwasanaethau plant, ysgolion a mwy
- Heddlu Dyfed-Powys.



## Beth wnaethon ni

Fe wnaethon ni edrych ar dystiolaeth.

Fe wnaethon ni siarad â phlant am eu gofal a'u cymorth.

Fe wnaethon ni gynnal grwpiau ffocws.

Fe wnaethon ni wirio cofnodion 30 o blant.

Fe wnaethon ni ymweld ag ysgolion a siarad â phlant, pobl ifanc, athrawon ac eraill.

Fe wnaethon ni siarad â staff a gweithwyr proffesiynol o bob rhan o'r gwasanaethau.

Fe wnaethon ni siarad â staff o Unedau Cyfeirio Disgyblion.

Fe wnaethon ni siarad â sefydliadau a grwpiau.

Fe wnaethon ni siarad â rhieni, gofalwyr a theuluoedd.

Fe wnaethon ni astudio dogfennau a anfonwyd atom fel rhan o'r arolygiad.

Fe wnaethon ni anfon arolygon allan.

Fe wnaethon ni eistedd i mewn ac arsylwi cyfarfod am gynllunio gwasanaethau a chynhadledd amddiffyn plant.

# Rhai o'n prif ganfyddiadau

## Cefnogaeth ac amddiffyniad

Mae gan Sir Benfro lawer o staff a gweithwyr proffesiynol medrus. Maent yn gweithio gyda'i gilydd, yn gweithredu'n gyflym ac yn gwybod sut i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel. Maent yn deall anghenion a phrofiadau plant.

## Pwysau ar wasanaethau

Mae angen gofal, cymorth, ac amddiffyniad ar fwy o blant.

Mae nifer y plant ar y Gofrestr Diogelu Plant wedi mwy na dyblu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

**58** o blant i **118** o blant.

Mae mwy o blant yn cael gofal gan yr Awdurdod Lleol.

O **242** o blant, hyd at **312** o blant yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Ond mae mwy o bwysau ar gyllidebau.

## Tîm Asesu Gofal Plant (CAT)

Mae'r tîm hwn yn gweithio'n dda gyda gwasanaethau eraill ac mae gweithwyr proffesiynol yn gwerthfawrogi eu cymorth.
Er mwyn gwella eu gwaith mae angen iddynt:

- ymateb yn gyflymach mewn rhai amgylchiadau pan fo pryder am blentyn
- adael i bobl wybod am ganlyniadau atgyfeiriadau a chadarnhau'n ysgrifenedig.

## Recriwtio a chadw staff

Mae Sir Benfro'n gweithio'n galed i ddatblygu gweithlu cryfach. Ond mae pwysau llwyth gwaith cynyddol wedi cael effaith ar dimau a llesiant staff.

## Gweithio gyda'n gilydd

Mae gwasanaethau a sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd yn dda ac yn deall beth sydd raid iddynt ei wneud i gadw plant yn ddiogel. Mae staff yn deall bod cadw plant yn ddiogel yn gyfrifoldeb pawb.

## Grwpiau Gweithredol Lleol (LOGs)


Mae gan bob awdurdod lleol yn y rhanbarth Grwpiau Gweithredol Lleol sy'n:

- monitro materion diogelwch plant lleol
- helpu gwasanaethau i weithio gyda'i gilydd
- Cynorthwyo gwasanaethau i wella.

## Arwyddion Diogelwch (SoS)

Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau'n deall ac yn defnyddio pecyn cymorth Arwyddion Diogelwch i helpu i gadw plant yn ddiogel. Mae'n helpu gweithwyr proffesiynol i:

- sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn a derbyn gofal yn y ffyrdd cywir
- gwrando ar yr hyn sydd gan blant i'w ddweud am eu bywyd a'r hyn sy'n bwysig iddynt
- gweithio gyda theuluoedd.



# Some of our main findings

## Cryfderau partneriaeth

Nod gweithwyr proffesiynol a staff ar draws gwasanaethau yw:

- rhoi plant yn gyntaf ym mhopeth a wnânt
- cael ffocws cadarnhaol ar gadw plant yn ddiogel
- gwybod sut i weld risgiau a chymryd camau gweithredu
- gweithio gyda'i gilydd yn dda, yn enwedig yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol
- rhannu gwybodaeth ac adrodd ar bryderon yn y ffyrdd cywir
- deall sut mae cam-drin, niwed ac esgeulustod yn effeithio ar fywydau plant
- camu i mewn yn gynnar i gynorthwyo plant a'u teuluoedd
- herio a dysgu oddi wrth ei gilydd
- mynychu cyfarfodydd a chynadleddau amddiffyn plant
- gwybod ble i gael cyngor a chymorth.

## Hyrwyddwyr diogelu

Mae gan Sir Benfro hyrwyddwyr diogelu yn gweithio ar draws gwasanaethau.

## Cyfarfodydd amddiffyn plant

Mae gweithwyr proffesiynol o bob rhan o wasanaethau a sefydliadau yn mynychu'r cyfarfodydd hyn a rhannu gwybodaeth i gadw plant yn ddiogel. Mae presenoldeb yr heddlu yn y cyfarfodydd hyn wedi gwella.

## Arweinyddiaeth

Mae gan y rhan fwyaf o uwch arweinwyr a rheolwyr ffocws cadarnhaol ar ddiogelu. Maent yn deall eu cyfrifoldebau ac yn rhoi diogelwch plant wrth wraidd eu gwaith.

**Mae gan arweinwyr weledigaeth glir; 'Gweithio gyda'n gilydd i wella bywydau.' Mae cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel yn rhan fawr o hyn.**



# Rhai o'r pwyntiau da a wnaethon ni eu canfod

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Mae gan y Bwrdd Iechyd lawer o staff sy'n gwybod sut i adnabod risgiau, codi pryderon a chadw plant yn ddiogel. Maent:

- yn hyfforddi staff i ddeall risgiau
- yn gwybod sut i adrodd am bryderon a chael y cymorth sydd ei angen ar blant
- yn meddu ar systemau a pholisïau diogelu da
- yn cynnal asesiadau a rhoi'r cymorth cywir i blant
- wedi gwella eu system wybodaeth a chofnodi
- wedi lleihau amser aros ar gyfer CAMHS (Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc)
- yn cynnwys Tîm Cyn Geni i amddiffyn babanod a phlant heb eu geni.
- yn mynychu cyfarfodydd diogelu a chyfarfodydd eraill
- yn rhannu gwybodaeth a gweithio'n dda gyda gwasanaethau eraill gan gynnwys ysgolion.

**Arweinyddiaeth**
Mae gan rai meysydd o'r Bwrdd Iechyd arweinyddiaeth gryfach sy'n cymryd camau gweithredu, yn herio arferion gwaith a chyfrifoldeb dros ddiogelu nag eraill.

**Y Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal**
Mae'r tîm hwn yn sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael asesiadau iechyd ac yn cael eu cadw'n ddiogel. Maent yn gwrando ar blant ac yn eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal. Maent hefyd yn cadw cofnodion a gwybodaeth arall yn gyfredol ac yn gywir.

**Ffyrdd newydd o weithio**
Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi arweinydd diogelu newydd yn Adran Frys un ysbyty i sicrhau bod plant yn ddiogel. Maent yn ystyried gwneud hyn mewn ysbytai eraill.

**Ymwelwyr Iechyd**
Mae Ymwelwyr Iechyd yn gwybod sut i adnabod risgiau a gweithio i sicrhau bod teuluoedd yn cael y gefnogaeth gywir. Maent yn cynnal asesiadau, yn gwrando ar deuluoedd ac yn cofnodi gwybodaeth am fywyd plentyn. Maent yn gweithio'n dda gyda bydwragedd a nyrsys cymunedol plant.



## Addysg

Mae gan bob ysgol, yr Uned Cyfeirio Disgyblion a'r gwasanaethau addysg safonau uchel o ran diogelu. Maent:

- yn ymyrryd yn gyflym pan fyddant yn credu bod plentyn mewn perygl
- yn gwybod sut i weld problemau a chynorthwyo teuluoedd
- yn gweithio'n dda gyda gwasanaethau eraill i wella bywydau plant
- yn cynnwys arweinwyr cryf sy'n deall eu rolau a'u cyfrifoldebau
- yn sicrhau bod gan bob aelod o staff hyfforddiant diogelu
- yn meddu ar gynlluniau a pholisïau diogelu cyfredol
- yn sicrhau bod staff newydd yn gwybod sut i gadw plant yn ddiogel
- yn meddu ar blatfform digidol i rannu gwybodaeth a chodi pryderon — y System Rheoli Achosion Gwybodaeth
- yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Lles Addysg sy'n dilyn pryderon am blentyn
- yn gweithio gyda Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd
- yn cael cyngor gan yr awdurdod lleol os oes pryder am aelod o staff
- yn gwybod pa blant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant a sicrhau eu bod yn cael cymorth
- yn meddu ar ffyrdd i'r cyhoedd godi pryderon am ddiogelwch plentyn
- yn gwrando ar blant a phobl ifanc a'u cynnwys mewn penderfyniadau
- yn cynnwys 'oedolion dibynadwy' enwebedig i blant a phobl ifanc siarad â nhw
- yn addysgu plant a phobl ifanc am iechyd meddwl da, llesiant, a pherthnasoedd iach
- yn gweithio gyda sefydliadau i gynorthwyo teuluoedd
- yn mynychu cyfarfodydd diogelu plant a chyfarfodydd eraill gyda gwasanaethau.

**Y Cyfarwyddwyr Addysg**
Mae ganddyn nhw rôl swyddog diogelu arweiniol ac maen nhw'n ei gwneud hi'n glir ei bod yn gyfrifoldeb ar bawb i gadw plant yn ddiogel.

**Gwella sut maent yn gweithio**
Bob blwyddyn, mae'r Rheolwr Addysg yn ymweld ag ysgolion a'r Uned Cyfeirio Disgyblion i sicrhau eu bod nhw'n cadw plant yn ddiogel ac yn cynorthwyo llesiant. Mae pob ysgol a'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn gwirio eu gwaith ac yn rhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar y Rheolwr Addysg. Mae'r Rheolwr yn ysgrifennu adroddiad ar gyfer pob ysgol ar sut i wella.



## Heddlu Dyfed-Powys

Mae gan yr heddlu swyddogion a staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda sy'n cadw plant sy'n agored i niwed yn ddiogel. Maent:

- yn gwybod sut i weld pryd mae plentyn mewn perygl, cyrraedd atynt yn gyflym, a'u hamddiffyn
- yn gwybod sut i gasglu, rhannu a defnyddio gwybodaeth i gadw plant yn ddiogel
- yn meddu ar dîm newydd i archwilio pryderon ynghylch cam-drin plant a gweithio gyda gwasanaethau cymdeithasol
- wedi rhoi hyfforddiant arbenigol i staff
- yn cynnwys swyddogion a staff wedi'u hyfforddi'n dda i wella eu gwybodaeth
- yn meddu ar systemau da i weld risg a chadw pobl yn ddiogel
- yn gweithio'n dda gyda'r Adran Ymchwilio Troseddol a thimau arbenigol eraill
- yn cynnwys arweinwyr cryf sy'n deall eu rolau a'u cyfrifoldebau
- yn cynnwys trinwyr galwadau sy'n gweld risg ac yn helpu swyddogion i gyrraedd yno'n gyflym
- yn cynnwys staff sy'n gwirio gwaith ac yn gwella sut mae'r heddlu'n cadw pobl sy'n agored i niwed yn ddiogel
- yn cynnwys staff i wirio adroddiadau am blant coll a sicrhau eu bod yn cael eu trin fel rhai risg uchel
- yn cynnwys staff i wirio cofnodion cam-drin domestig a sicrhau bod plant sy'n byw yno'n cael cymorth
- yn gwrando ar yr hyn sydd gan blant i'w ddweud am eu profiadau a'i gofnodi
- yn camu i mewn i atal troseddwyr rhag cysylltu â phlant
- yn gweithio gydag ysgolion i ymchwilio i bethau fel negeseuon rhywiol a mathau eraill o gam-drin plant ar-lein
- yn mynychu cyfarfodydd diogelu plant a chyfarfodydd eraill
- yn cynorthwyo llesiant swyddogion a staff
- yn gwirio a pharhau i wella eu gwaith.

**Y rhaglen INTACT**


Mae'r rhaglen hon yn helpu'r heddlu i weithio gyda gwasanaethau eraill sy'n gweithio i gadw cymunedau'n fwy diogel a helpu plant a phobl ifanc i gael y gefnogaeth gywir, ar yr amser iawn. Mae rhan o hyn yn cynnwys cysylltu plant a phobl ifanc â gweithgareddau yn y gymuned er mwyn iddynt beidio â chael eu denu at droseddu.

**Gwella eu gwaith**

Mae'r heddlu'n gwella eu systemau gwybodaeth fel bod ganddyn nhw'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ei hangen arnyn nhw i gadw plant yn ddiogel.

**Operation Encompass**

Mae Operation Encompass yn helpu'r heddlu a gwasanaethau addysg i weithio gyda'i gilydd. Mae'r Heddlu'n sicrhau bod ysgolion yn gwybod pryd mae angen cymorth ar ddisgybl oherwydd ei fod wedi profi cam-drin domestig.



## Gwasanaethau Plant

Mae staff yn ymroddedig iawn ac wedi ymrwymo i hyrwyddo diogelwch a llesiant plant. Maent:

- yn rhoi plant yn gyntaf ym mhopeth a wnânt
- yn gweithio'n galed i wella bywydau plant a theuluoedd
- yn camu i mewn yn gynnar i gynorthwyo plant a theuluoedd
- yn darparu cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg
- yn gweithio'n dda gyda gwasanaethau eraill
- yn sicrhau bod cofnodion a gwybodaeth yn gyfredol ac yn gywir
- yn cadw cysylltiad â theuluoedd ac yn ymweld
- yn sicrhau eu bod yn gweld plant ar eu pen eu hunain fel y gallent wrando ar eu profiadau
- yn meddu ar wahanol ffyrdd o gynnwys plant a gwrando ar eu barn fel defnyddio teganau a chelf
- yn rhannu gwybodaeth gyda rhieni a'u cynnwys mewn penderfyniadau
- yn dweud yn glir wrth deuluoedd beth sydd angen digwydd nesaf a pham
- yn gweithio'n dda gyda Swyddogion Adolygu Annibynnol sy'n gwirio bod plant yn cael y cymorth cywir
- yn cynnwys Rhwydwaith Cymorth Teuluoedd Sir Benfro sy'n helpu teuluoedd i gysylltu â gwasanaethau
- yn cynorthwyo a chynghori teuluoedd sy'n dewis addysgu eu plant gartref
- yn mynd i gyfarfodydd diogelu gyda gwasanaethau eraill.

### Arweinyddiaeth a rheolwyr

Mae gan wasanaethau plant arweinwyr a rheolwyr profiadol. Maen nhw'n gweithio'n galed i leihau'r pwysau ar staff a chynyddu capasiti. Maen nhw ar gael i siarad a chynorthwyo llesiant staff.

### Timau

Mae yna lawer o dimau a phrosiectau a all gamu i mewn yn gynnar i gynorthwyo teuluoedd a chadw plant yn ddiogel yn cynnwys:

- y Tîm Cymorth i Deuluoedd
- y Tîm Ar Ffiniau Gofal
- y Tîm Asesu Gofal Plant
- y prosiect Ymyrraeth Gynnar Rhiant a Baban
- y prosiect Maethu Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl.

### Goresgyn heriau

Mae camu i mewn yn gynnar a chefnogi teuluoedd yn gwneud gwahaniaeth mawr. Ond mae'r gofynion ar staff ac adnoddau cyfyngedig yn gwneud hyn yn anoddach. Felly, mae gwasanaethau Plant wedi cael mwy o gyllid i ddelio â hyn a gwella'r gallu i gynorthwyo pobl. Maen nhw'n edrych ar ychwanegu mwy o staff at eu timau.



# Ei wneud yn well ar gyfer y dyfodol

**Dyma rai ffyrdd rydyn ni'n credu y gall gwasanaethau wella**

- Gwrando fwy ar blant a phobl ifanc a'u cynnwys nhw mewn penderfyniadau.
- Sicrhau bod yr holl staff yn deall pa mor bwysig ydyw i gadw cofnodion yn gyfredol.
- Sicrhau bod staff yn dilyn atgyfeiriadau.
- Dylai gwasanaethau sicrhau bod adroddiadau'n barod ar gyfer cyfarfodydd fel bod pawb yn gwybod beth sy'n digwydd a pham. Bydd hyn yn helpu pobl i wneud penderfyniadau gwell a lleihau oedi wrth i blant gael cymorth.
- Mae angen i arweinwyr y Bwrdd Iechyd:
  - sicrhau bod staff yn mynychu hyfforddiant diogelu
  - gwrando fwy ar adborth.
- Mae angen i'r heddlu a'r Bwrdd Iechyd:
  - wirio a gwella ansawdd eu gwaith
  - roi sesiynau goruchwylio i staff
  - roi cyfleoedd i staff rannu arfer dda, datblygu eu sgiliau a dysgu.
- Sicrhau y gall systemau TG gysylltu a rhannu gwybodaeth yn well, yn enwedig yn y Bwrdd Iechyd.
- Siarad mwy â theuluoedd a'u cynnwys mewn penderfyniadau.
- Recriwtio rhagor o staff i fodloni'r gofyn mewn Gwasanaethau Plant fel nad oes bylchau mewn cymorth.
- Mae angen i bob gwasanaeth gyfathrebu'n well, er enghraifft rhwng nyrsys ysgol a gweithwyr cymdeithasol. Mae rhannu gwybodaeth ar yr amser iawn yn gwneud gwahaniaeth mawr. Mae'n golygu y gall plant a phobl ifanc gael asesiadau a chymorth yn gynt.
- Sicrhau bod gan staff gymorth i edrych ar ôl eu llesiant â delio â phwysau.
- Sicrhau bod archwiliadau iechyd a meddygol Diogelu Plant yn cael eu cynnal yn Sir Benfro fel bod plant yn cael cymorth yn gynt.
- Mae angen cynnig eiriolwr i blant fel y gallant gael help i gael eu clywed.
- Mae angen i'r heddlu wella cynllunio diogelwch i blant sy'n rhan o ymchwiliad.



# Y camau nesaf

Rydym ni wedi ysgrifennu at yr holl wasanaethau dan sylw i egluro'r hyn y daethom ni o hyd iddo a'r hyn mae'n rhaid iddyn nhw ei wneud. Byddant yn rhoi gwybod i ni sut maen nhw'n bwriadu gwella eu gwaith.

Byddwn yn arolygu gwasanaethau eto yn y dyfodol.

**Diolch am ddarllen hwn.**

Gallwch ddarllen yr adroddiad llawn yma:

